Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* aluntudur@btinternet.com**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
***Ffôn:* 01766 513138**
***E-bost:* IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
***Ffôn:* 01267 232577 / 0781 751 9039**
***E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.org**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

Ebeneser, Trefriw

CANMOL YR ARGLWYDD A CHOFIO'R GORFFENNOL

Pan ddaeth cais i mi gan fy nghyfaill Trystan Lewis, y cerddor a'r arweinydd amryddawn o Landudno, a fyddwn â diddordeb mewn bod a rhan mewn Cymanfa Ganu arbennig yng nghapel Ebeneser, Trefriw yn Nyffryn Conwy yn niwedd Medi eleni (2016), petrusais… Petrusais am na chynhaliwyd oedfa nac unrhyw gyfarfod arall yn y capel ers rhai blynyddoedd, ac nid oeddwn yn siŵr os oedd yr Achos wedi ei ddirwyn i ben yn swyddogol ai peidio. Deallais yn fuan wedyn na ddirwynwyd yr Achos i ben drwy ei ddatgorffori. Holais ymhellach beth oedd cyflwr yr adeilad, a chefais fwy nag un ateb - fel sy'n digwydd mewn sefyllfaoedd fel hyn.

Dyled

Beth bynnag, pan ddeallais fod yr yswiriant ar yr adeilad wedi ei dalu, penderfynais ateb yn gadarnhaol i'r cais gan Trystan i fod yn organydd y Gymanfa unigryw hon, oherwydd nifer helaeth o resymau, a dyma rai ohonynt: Cofiais am gyfraniad nodedig Ebeneser i'r dystiolaeth Gristnogol yn yr ardal, ac i fywyd diwylliannol y fro. Ychwaneger at hynny'r ffaith mai yno y treuliais flynyddoedd cynnar fy mywyd gan i dad weinidogaethu ar Ebeneser rhwng 1964 ac 1971, ac wedi hynny, ar hyd y blynyddoedd dilynol, cadwasom fel teulu gyswllt agos a'r fro. A bu Ebeneser yn rhyfeddol o driw i ni fel teulu yn ein gwahanol amgylchiadau personol.

Un o ffenestri lliw hardd y capel.

Beirdd a Chantorion

Y mae i Drefriw, ac eglwys Ebeneser, orffennol gloyw iawn yn ei gweinidogion, diaconiaid, aelodau, a nifer ohonynt yn feirdd a cherddorion. Un o'r organyddion oedd T.R. Williams, perchennog y Ffatri Wlân enwog yn y pentref, ac yn ei gyfnod ef, yn 1898, y prynwyd organ bib o wneuthuriad Peter Conacher Huddersfield i'r capel. Bu T.R. yn arweinydd Côr Llanrwst, a gwelir rhai o'i donau yn 'Caneuon Ffydd'. Cyfansoddodd hefyd anthemau poblogaidd yn eu cyfnod - 'Awn i Dŷ yr Arglwydd' a 'Seren Bethlehem.' Yn Nhrefriw hefyd y magwyd Evan Evans neu Ieuan Glan Geirionydd, i roi iddo'i enw barddol, ac Edward Harker neu Isnant, i roi iddo yntau ei enw barddol, ynghyd ag amryw eraill a gyfoethogodd farddoniaeth a cherddoriaeth ein gwlad yn eu cyfnod. Canwyd nifer o'r tonau a'r emynau oedd a chysylltiad lleol gan gynnwys y ddwy anthem a enwyd yn y Gymanfa.

Gwasanaeth gwerthfawr

Gofynnwyd i Huw Ynyr, enillydd Cenedlaethol, o Ryd-y-main i fod yn unawdydd. Nid yn unig y mae Huw yn aelod yn un o'r eglwysi sydd o dan fy ngofal, ond hefyd yn or-nai i Catherine Watkin, a roddodd ac a rydd wasanaeth gwerthfawr i'r bywyd diwylliannol yn Nyffryn Conwy, a phwy nad anghofia am gyfraniad ei diweddar briod, y Parchedig John Watkin, i'r dystiolaeth Gristnogol mewn sawl ardal yng Nghymru gan gynnwys Dyffryn Conwy ac Arfordir Aberconwy. Braf oedd cael cwmni Catherine yn y Gymanfa ynghyd â rhieni

O'r chwith i'r dde, gwelir Iwan Llewelyn Jones (Organydd), Trystan Lewis (Arweinydd), Phillip Barnett a Huw Ynyr (Unawdydd).

Huw Ynyr - Huw Alun a Rhianwen Evans o Ryd-y-main.

Cynulleidfa Deilwng

Yr oedd capel Ebeneser bron yn llawn i'r Gymanfa nos Sul, Medi 25ain. Gofynnais droeon i mi fy hun cyn y noson "sgwn i faint o gynulleidfa fydd yno?" Sioc o'r mwyaf i mi oedd gweld ei maint. Arweiniodd Trystan y Gymanfa mewn modd sensitif gan roi sylw dyladwy i eiriau'r emynau oedd yn llawn o her a gobaith yr Efengyl. Cafwyd canu godidog gyda Chôr Cymysg Dyffryn Conwy yn gefn i'r mawl. Gresyn nad oedd yr organ yn ei llawn hwyliau, ond dyna fo, pan fo offerynnau yn segur am amser maith, does dim disgwyl gwell. Gwnaed y gorau ohoni o dan yr amgylchiadau. A chawsom ein gwefreiddio gan Huw Ynyr drwy ei ddewis doeth o ganeuon ynghyd a chyfoeth ei lais.

Nid heb golli deigryn y deuthum oddi yno'r noson honno, ond yr oedd neges emyn Edward Jones ar y dôn 'Brwynog' o waith T. R. Williams yn atseinio yn fy nghlustiau:

parhad ar dudalen 7

DIOLCHGARWCH



Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Wasg Morgannwg, 27 Ystad Ddiwyd. Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.

PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 149 Rhif 48 Tachwedd 24, 2016 50c.

Diwrnod Hanes i'w Gofio

Cafwyd darlith feistrolgar am ymosodiad 'Brad y Llyfrau Gleision' ar yr iaith Gymraeg ac Anghydffurfiaeth gan yr Athro Prys Morgan mewn achlysur a gynhaliwyd gan Gymdeithas Hanes yr Annibynwyr eleni yng Nghapel Bethel, Sgeti ar Ddydd Sadwrn, 29 Hydref.

Yn absenoldeb Cadeirydd y Gymdeithas y Parchg Dr Alun Tudur, Caerdydd, llywyddwyd y diwrnod gan y Parchg Emyr Gwyn Evans, Y Tymbl, Ysgrifennydd y Gymdeithas. Roedd yr ysbryd yn uchel o'r cychwyn am fod festri Bethel dan ei sang. Nid oedd hynny'n syndod o gofio bod yr Athro Prys Morgan, Abertawe yn un o ddarlithwyr mwyaf poblogaidd y genedl. Llywyddwyd y ddarlith yng nghyfarfod y bore, gan y Parchg Derwyn Morris Jones, cyfaill a chyd-aelod i'r darlithydd ym Methel, Sgeti. Diau fod teitl y ddarlith 'Brad y Llyfrau Gleision ac Anghydffurfiaeth yng Nghymru' wedi bod yn atyniad i ddenu'r fath gynulleidfa, ac ni'n siomwyd. Gyda'r darlithydd yn ei elfen wrth draddodi, yn ôl ei arfer, cawsom ganddo ddarlith ddifyr, yn cyflwyno'r hanes yn feistrolgar a chwbl ysbrydoledig.

Pennod Dywyll yn hanes Cymru

Wedi cyflwyno'r bennod dymhestlog yn hanes Cymru mor oleuedig, nid oedd rhithyn o amheuaeth ym meddyliau'r gwrandawyr mai pennod dywyll yn gyfystyr â bradychu o'r math gwaethaf oedd adroddiadau'r dirprwywyr Saesneg a gomisiynwyd yn 1847 gan y Llywodraeth yn Llundain i ymchwilio i gyflwr addysg yng Nghymru ar y pryd. Cyflwynasant gasgliadau eu hymchwil mewn 1,252 o dudalennau, wedi eu rhwymo rhwng cloriau gleision. Nid oedd yn Adroddiad diduedd, gan fod y dirprwywyr wedi pwyso ar dystiolaeth clerigwyr Eglwys Loegr, rhai oedd yn chwerw tuag at y Cymry oherwydd llwyddiannau Anghydffurfiaeth. Oherwydd eu rhagfarn, cafodd y Cymry eu cyhuddo o fod yn bobl fudr, ddiog, anwybodus, ofergoelus, twyllodrus ac anllad, gyda'r bai yn cael ei roi ar ddylanwad Anghydffurfiaeth a'r Iaith Gymraeg.

Seisnigeiddio'n Haddysg

Ac i wlad ar y pryd oedd yn cael eu chwyldroi yn grefyddol, yn ddiwylliannol, yn wleidyddol ac yn gymdeithasol, nid rhyfedd oedd bod pobl y capeli Anghydffurfiol a'u harweinwyr, gan gynnwys y Methodistiaid, wedi ymateb i Adroddiad 1847 gyda storm o brotest. O ddeall bod y Cymry wedi taro nôl trwy gynnal llu o gyfarfodydd cyhoeddus ac ymateb i'r beirniadu annheg trwy'r wasg, cawsom wybod gan yr Athro Prys Morgan am effaith y ddrama a luniwyd gan R. J. Derfel sef *Brad y Llyfrau Gleision*, yn seiliedig ar hanes a thwyll Brad y Cyllyll Hirion ganrifoedd ynghynt. Bu dylanwad y ddrama'n bellgyrhaeddol ym meddyliau'r Cymry. Ond canlyniad Adroddiad y Llyfrau Gleision oedd Seisnigo'r Cymry trwy gyflwyno trefn addysg rad cwbl Saesneg, a hynny er mwyn iddynt wella eu byd. Wrth fabwysiadu'r addysg Saesneg, onid cael ein twyllo mewn gwirionedd gawsom fel Cymry yng nghysgod Adroddiad 1847?

Cadwn mewn cof

Ac effaith arall ddiflas casgliadau Adroddiadau y Llyfrau Gleision oedd yr adweithio ddigwyddodd mewn gwneud y Cymry yn or-grefyddol a pharchus o ran eu buchedd a'u crefydd, yn arbennig felly yn oes Victoria. Roedd yn ddarlith addysgiadol gan Prys Morgan, oherwydd fel y cydnabu, y mae pennod Adroddiad 1847, a'r cyd-destun, mewn perygl o gael ei hanghofio gennym, ac mae angen i ni gadw'r bennod a'i heffeithiau andwyol, ddylai ein sobreiddio, mewn cof. Mawr oedd ein diolch i Prys Morgan am ddarlith oedd yn ein goleuo drachefn ac yn ein hargyhoeddi o bwysigrwydd y testun.

Emyr Gwyn

(Cawn hanes gweddill y Diwrnod Hanes yn y rhifyn nesa o'r Tyst)

Diolch yn yr Hendy

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch plant ac ieuenctid y Tabernacl, Hendy-gwyn ar ddechrau mis Hydref. Cafwyd gwasanaeth o ddiolch ac yn arbennig yn ystod Blwyddyn y Beibl Byw fe ddiolchwyd am y Beibl. Hefyd fe gasglwyd bocsys ar gyfer Operation Christmas Child. Ac fel y gwelir cafwyd ymweliad gan Tecwyn, mascot MIC (Menter Ieuenctid Cristnogol Sir Gâr)

Cyflwynodd dau o aelodau'r Tabernacl, Hendy-gwyn focs cymun ar gyfer defnydd yr ofalaeth yn ddiweddar. Yn dilyn gweithdy Aled Jones ar y cymun yng Nghaerfyrddin yn gynharach yn y flwyddyn penderfynwyd ail-ddechrau cynnig cymun i aelodau sy'n gaeth i'w tai. Aeth Pat a Meurig ati i lunio bocs pwrpasol ar gyfer y gwaith.

John Davies, Capel yr Erw, Cellan

Cafodd deugain mil o Gymry eu lladd yn y rhyfel byd cyntaf, ac ychydig fisoedd yn ôl cafwyd cyfle yng Nghapel yr Erw, i gofio am un ohonynt sef John Davies, Bayliau. Roedd yn frawd i Sarah Ann sef mamgu Eleri, Andrew, Bleddyn a Gethin (Bayliau gynt). Yn ystod y gwasanaeth cafodd y teulu gyfle i rannu ei hanes, a hyn ar achlysur canmlwyddiant ei farwolaeth ar yr 20fed o Orffennaf 1916 yn 23 mlwydd oed.

Capel yr Erw gan Aidan Jones

Draw i Lundain

Mae hanes dwy flynedd olaf ei fywyd ar gael yn ei eiriau ei hun mewn llythyron a ysgrifennodd at un o'i chwiorydd sef Sarah Ann. Stori ydyw sy'n olrhain hanes mab fferm o bentref Cellan yn mynd i weithio mewn siop adrannol fawr yn Llundain, yn ymuno â'r fyddin, ei hyfforddiant milwrol, a'i brofiadau ar faes y gâd yn Ffrainc.Mae'r llythyron (wedi'u hysgrifennu mewn Saesneg perffaith) yn hir a disgrifiadol, ac wrth ei darllen gwelwn ei gymeriad annwyl, ei gonsyrn am ei deulu yng Nghellan, a'r gyfathrach agos sy'n amlwg rhyngddo a'i chwaer – pob llythyr yn gorffen – "Your dear brother John."

Ymuno â'r fyddin

Ym mis Tachwedd 1915 ymunodd a'r fyddin a cawn hanes ei hyfforddiant gyda'r London Regiment 1st Surrey Rifles. Byddai ei lythyron bob amser yn rai hapus ac optimistaidd beth bynnag yr amodau. Mae'n 'sgrifennu

Arfbais 1st Surrey Rifles

"This morning we had another 10 mile march. It is really very nice marching with the band playing to keep us cheerful. We are also allowed to sing and smoke so you can imagine us being quite happy."

O'i amodau byw yn ystod ei hyfforddiant mae'n dweud, *"The people I am billeted with are most kind to us … We are fed like Lords."* Ar ôl symud i safle arall yn Salisbury mae'n disgrifio ei wely gwellt yn *"quite warm and comfortable,"* a dyma'r agwedd bositif gawn ganddo, - mae'n siwr am roi'r argraff i'w deulu nad oedd angen poeni amdano. Hyd yn oed ar faes y gâd yn Ffrainc pythefnos cyn ei ladd mae'n ysgrifennu, *"We live in dugouts which are quite decent… big enough to hold over a hundred men. There is room for all of us to lay down and sleep quite comfortable."* Hwn oedd y llythyr olaf iddo ei ysgrifennu. Fe'i lladdwyd ar yr 20fed o Orffennaf ac fe'i claddwyd ym mynwent y fyddin yn Louez Duisans.

Colled Enbyd

Mae'n anodd dychmygu effaith ei farwolaeth ar ei deulu, ond mae lluniau ar gael yn dangos ei fam, ei frawd, a'i dair chwaer yn ymweld â'i fedd yn Ffrainc. Does dim angen nodi fod y llythyron a'r lluniau yn drysorau caiff eu cadw'n barchus gan y teulu er mwyn i genedlaethau'r dyfodol eu gwerthfawrogi. Ymunodd ei frawd Evan Andrew a'r fyddin, a hyn ar ôl marwolaeth John. Roedd ef hefyd yn gweithio'n Llundain ac yn ffodus daeth yn ôl o'r rhyfel yn ddianaf. Bu fyw yn Llundain weddill ei oes. Roedd Sarah Ann yn ffermio fferm Bayliau a symudodd i Cnwc-y-Fallen ar ôl ymddeol. Priodod ei chwaer arall y Parchedig D R Pugh, Caerffili. Gweinidog hefyd oedd gŵr Margaret (Peg) sef D J Williams, Ystrad Mynach. Roedd Margaret Williams yn aelod ffyddlon yng nghapel Minnie Street, Caerdydd, hyd ddechrau'r wythdegau tan iddi ddychwelyd i fyw yng Nghellan. Bu Anti Peg farw yn 92 mlwydd oed.

Bleddyn Williams

Bydd cyfrol newydd, sef

Hanes Capel Iwan

o waith

y diweddar Barchedig Lewis Griffith Roberts

yn cael ei lansio

yng Nghapel Iwan am 2.00pm

ar ddydd Sadwrn, 3 Rhagfyr.

Cyhoeddiad preifat gan Alun ac Arwel Roberts, meibion y Parchg L.G. Roberts a Mrs Megan Roberts fydd hwn, a golygwyd y gyfrol yn ofalus gan Merfyn Morgan, Caernarfon, un a fagwyd yn ardal Capel Iwan.

O fewn y cloriau, ceir hanes ardal Capel Iwan, sef ffrwyth ymchwil gofalus yr awdur.

Dyfarnwyd cadair dderw yn wobr iddo am y gwaith mewn eisteddfod leol, ond dim ond yn awr y mae'r gyfrol, fydd o ddiddordeb neilltuol i bawb oedd yn ei adnabod, ac hefyd i drigolion gogledd-orllewin Sir Gaerfyrddin, gogledd Penfro a de Ceredigion, yn gweld golau dydd.

Gyda dim ond 200 copi yn cael eu hargraffu, bydd y gyfrol 90 tudalen ar werth am y pris rhesymol o £6.00.

Os am archebu copi, dylid cysylltu â Mr Arwel Roberts, Fach Wen, Ffordd Rhyl, Rhuddlan. LL18 2TP

RWMANIA

Agoriad llygad

Rwy'n sgwennu atoch o Rwmania bell, cyn troi am adref i Gymru fach ar ddiwedd ein gwyliau. Do, fe gawsom brofiadau newydd a diddorol yn y wlad ddiarth hon, ond yn sicr, teg bellach yw edrych tuag adref. Cyn cychwyn ar ein taith, ychydig iawn o wybodaeth oedd gennym am Rwmania, ar wahân i'r modd y terfynwyd 'teyrnasiad comiwnyddol' llygredig Nicolae Ceausescu a'i wraig Elena. Ar ddiwrnod Nadolig yn 1989, saethwyd y ddau yn ddiseremoni mewn llain agored o dir, bythefnos ar ôl 'Chwyldro'r Bobl.' Y mae hanes terfysgoedd y genedl hon yn waedlyd iawn, a than ormes ymerodraethau a llawer teyrn a brenin yn eu tro, lladdwyd miliynau o'i phobl i lawr ar hyd y canrifoedd. Yn ystod ein teithiau yno, deuthum yn ymwybodol mai dyn yw dyn ar bum cyfandir, ac nad ar chwarae bach y daw cenhedloedd ein daear i sylweddoli bod trais yn magu trais, a lladd yn esgor ar ysbryd dial a thalu yn ôl.

Agoriad calon

Er bod Rwmania bellach yn wlad ddemocrataidd ac wedi gwella yn economaidd, gwelir olion tlodi a chaledi bywyd o hyd. Daw i'm cof sgwrs a gawsom yn nechrau'r nawdegau gan ferch ifanc o'n Heglwys, Elen Elias, yn sôn am ei hymweliad â Rwmania, ac yn arbennig ac â phlant bach mewn cartrefi plant amddifad. Ychydig ynghynt, roedd Ceausescu yn mynnu bod poblogaeth y genedl yn cynyddu'n sydyn, heb roi cymorth ariannol i'r bobl gynnal eu teuluoedd. Yn fuan iawn, gwelwyd effaith arswydus hyn, yn arbennig ar famau oedd yn methu cynnal a bwydo eu plant. Roedd teuluoedd mewn cyflwr enbyd, a dioddefodd llawer o'r plant esgeulustra annynol, yn arbennig y rhai â nam arnynt. '*Trechaf treisied, gwanaf gwaedded'* oedd y drefn. Cofiwn o hyd ddisgrifiad Elen o gyflwr torcalonnus plant bach heb ofal cariad tad a mam a theulu, nac ymgeledd o unrhyw fath. Do, fe'n hysgydwyd ninnau yn fawr o wrando ar ei neges. Mae lle i gredu fod tywyllwch y dyddiau hynny drosodd yn Rwmania, ac y mae egin gobaith i'w gweld drwy'r wlad. Roedd ein tywysydd yn ymwybodol iawn o feirniadaeth fyd-eang o ddigwyddiadau echrydus y ganrif ddiwethaf, ond yn ein sicrhau fod llywodraeth ddemocrataidd ei wlad bellach wedi gweddnewid y sefyllfa. Gobeithiwn yn wir fod hyn wedi digwydd.

Bucharest

Agoriad gobaith

Heddiw, cawn ein harswydo yn ddyddiol o glywed am gyflwr erchyll teuluoedd diniwed mewn rhannau eraill o'n byd megis Syria, Libanus, a nifer o wledydd Affrica. Mae'r rhestr bron yn ddiddiwedd. Clywais rywun yn dweud, *Pe byddwn yn Dduw, byddwn wedi cicio'r byd yn ddarnau mân.'* Prysuraf i ddweud nad ein byd yw'r broblem ond dyn. Yn hytrach nag anrhydeddu enw Duw a pharchu ei fyd, rydym yn defnyddio adnoddau'r greadigaeth i amcanion hunanol. Ac yn waeth na hynny, rydym yn defnyddio adnoddau'r greadigaeth i greu arfau rhyfel i'w gwerthu er mwyn elw. Y canlyniad anochel yw bod miliynau o bobl yn dioddef anghyfiawnder ac yn cael eu difa fel gwybed. Ond gwyddom fod ffordd ragorach i newid cyflwr truenus dyn, a'r ffordd honno yw'r hyn a wnaeth Iesu Grist yn ei fywyd o'r crud i'r groes. Trwy ei aberth drud, estynnodd inni berthynas newydd â Duw ac â'n gilydd, a sicrhau gobaith newydd i'n byd ac i bawb sy'n credu yn ei enw. Rwy'n cloi gyda phennill o emyn M.Von Bowenstern wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan Thomas Lewis,

Heddwch o'n mewn, i ddifa llygredd calon;
Heddwch i'th saint yng nghanol eu pryderon;
Heddwch i'r byd yn lle ei frwydrau creulon
Heddwch y cymod.

John Lewis Jones

Barn Annibynnol

CRISTNOGION A DONALD TRUMP

Fel y dywedodd rhywun, y tristwch yw nid bod Donald Trump fel ag y mae ond bod digon o gefnogaeth iddo i'w wneud y dyn mwyaf pwerus yn y byd. Achosodd ei lwyddiant eithafion o ymateb. Ar y naill law bu gorfoleddu, arweinydd y Ku Klux Klan, yr Arlywydd Putin a Nigel Farrage yn amlwg yn eu plith. Ond sut mae hi yn nes aton ni? Beth ydy barn darllenwyr *"Y Tyst"*? Yn fy nghylch bach i, chwrddais i â neb sy'n hapus.

BYD MWY PERYGLUS

Ai dyma'r farn Gristnogol? Dyna fyddwn i'n ddisgwyl. Mae'r byd fel pe bai'n beryclach lle ers yr etholiad, ac yntau â byddin ac arfau cryfa'r byd yn ei law. Anodd meddwl am ddim mwy arswydus na bod ei fysedd ar fotymau 4,000 o fomiau niwclear. Bygythiodd dynnu America allan o'r cytundeb byd-eang i leihau allyriadau carbon, cytundeb y gweithiwyd mor galed i'w sicrhau. Byddai colli cefnogaeth yr Unol Daleithiau yn ergyd galed a diogelwch y cenedlaethau yn y fantol. Och a gwae!

Rhybuddiodd y bydd ei ddiwrnod cyntaf mewn grym yn un chwyldroadol. Mae lleiafrifoedd yn arswydo mewn dychryn, wedi clywed mai'r mwyaf bregus a di-rym, yn fewnfudwyr, Mwslemiaid, pobl wahanol eu rhywioldeb fydd y cyntaf i brofi blas ei gyllell. Ie, a'r Affro-Americaniaid. Llwyddodd drwy ei ymgyrch fileinig i rwygo'r caead oddi ar jar o lysnafedd, a'i gwneud yn dderbyniol i fwlio lleiafrifoedd. Ar drawiad, aeth bywyd y bobl fwyaf bregus yn anos fyth.

Roedd pob math o resymau pam yr enillodd gefnogaeth yr etholwyr, wrth gwrs. Ond yn eu plith, mae'n amlwg iawn, roedd yr awydd i ddadwneud gwaith yr arlywydd du, ac i beidio â chael gwraig yn y Tŷ Gwyn. Ers ei ethol gwelsom ddyn pur wahanol. Mae'n ymddwyn ac yn siarad yn garedicach a thynerach. Mae hynny'n rhyddhad mawr. (Erbyn y byddwch yn darllen hwn bydd yn fwy amlwg sut y bydd y gwynt yn chwythu.) Cofier iddo gyrraedd drwy fod yn fwli rhagfarnllyd, a llawer wedi pleidleisio drosto, nid er gwaetha hynny, ond o achos hynny. Nid addo undod a rheoli er mwyn pawb sydd wedi ei roi yn y Tŷ Gwyn, ond atgasedd at yr eraill yr honnir eu bod yn gyfrifol am y picil. Bydd ei gefnogwyr mwyaf selog yn disgwyl ei weld yn cadw'i air.

BARN CRISTNOGION

Ynghanol holl fudreddi'r misoedd diwethaf, un o'r pethau tristaf fu gweld cefnogaeth cymaint o Gristnogion America i Donald Trump. Nid y cwbl, debyg iawn. Mae'n werth darllen sylwadau a gweddïau Jim Wallis, arweinydd y Sojourners, gŵr sy'n ei

ddisgrifio'i hun fel Cristion efengylaidd. "Byddwn ni'r Sojourners," meddai "yn sefyll gyda'n brodyr a'n chwiorydd pan ymosodir arnyn nhw… rhaid i ni wrthwynebu'r rhagfarnau hiliol y mae'r darpar arlywydd wedi eu hau, a galw'r eglwysi yn ôl at wyrth corff amlhiliol Crist y galwodd Duw ni iddo."

Mae rhwyg anferth ar y mater ymhlith Cristnogion. Anodd iawn i ni ddeall sut yn y byd yr oedd tua 80% o Gristnogion efengylaidd gwyn America ymhlith cefnogwyr mwyaf brwd Trump, ac yntau yn arddel cymaint o werthoedd y Diafol. Ymddengys bod ei wrthwynebiad i'r hawl i erthylu yn fwy na gwneud iawn am fryntni ei ymgyrch. Neu a ydyw talpiau o hwnnw hefyd yn apelio atynt? A chymaint ohonom yn arswydo rhag beth sydd o'n blaenau, beth allwn ni wneud? Dyma ddau awgrym i ddechrau:
Gweddïo dros Donald Trump a thros y byd.

Peidio â digalonni. Ar ddiwrnod cyhoeddi'r canlyniad roedd Robat Powell yn annerch Cyfundeb Gorllewin Morgannwg. Siaradodd ar gyngor Paul i'r Corinthiaid - er i ni gael ein bwrw i lawr chawsom ni mo'n bwrw mas; wnawn ni ddim digalonni, daliwn i sefyll ar y graig y naddwyd ni ohoni. Mae'n neges i'w harddel ac i'w rhannu.

Dewi M Hughes

(Nid yw'r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Dydd Gweinidogion yr Eglwysi Annibynnol

Yn y Gogledd:
Capel Coffa,
Cyffordd Llandudno, LL31 9HG
Dydd Iau, 8 Rhagfyr 2016
Cychwyn am 10.30am

Thema'r diwrnod:
Mentro Dweud, Mentro Gwneud

Sesiwn y bore: Mentro Dweud
Astudiaeth Feiblaidd gan
y Parchg Rhun Murphy
ar fentro siarad am ein ffydd

Sesiwn y prynhawn: Mentro Gwneud:
Y Parchgn Mererid Mair a Dylan Rhys Parry
yn cynnig enghreifftiau o eglwysi
yn mentro gwneud pethau newydd.

Darperir cinio am ddim

Ebeneser, Trefriw

parhad o dudalen 8

'Pob seraff, pob sant,
Hynafgwyr a phlant,
Gogoniant a ddodant i Dduw
Fel tyrfa gytun,
Yn beraidd bob un
Am Geidwad o Forwyn yn fyw.

High Peak MS

Aeth elw'r noson i gronfa High Peak MS. Y mae Tim, mab y Parchedig Phillip a Mrs Catherine Barnett, gweinidog y Wesleaid yn yr ardal, yn dioddef o'r afiechyd creulon hwnnw, a chyflwynwyd swm anrhydeddus iawn o £980 i'r gronfa honno. Braf oedd cael cwmni Phillip a Catherine yn y Gymanfa, a Phillip Barnett ei hun gyflwynodd y Fendith. Braf hefyd oedd cael cwmni Glyn Williams, Deganwy, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn y Gymanfa. Y mae ei briod Dilys, yn aelod o Gôr Dyffryn Conwy.

Iwan Llewelyn Jones
iwanllew@aol.com

Capel Hope-Siloh, Pontarddulais

Cyngerdd

Côr Llanddarog ac Artistiaid Eraill

Cerddoriaeth Eric Jones

Nos Sul, 4 Rhagfyr 2016
I ddechrau am 6.00
Tocyn: £8

Tocynnau ar gael: *hopesiloh@hotmail.co.uk*

Penderfyniadau

Cyfarfodydd Blynyddol 2017

Os oes cyfundebau, eglwysi neu aelodau personol o'r Undeb sy'n dymuno cyflwyno penderfyniad i Gynhadledd y Cyfarfodydd Blynyddol yn Rhydaman ym mis Mehefin, mae gofyn i gopi o'r penderfyniad, wedi ei lofnodi gan y cynigydd a'r eilydd, gyrraedd Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe, Abertawe SA7 0AJ, erbyn dydd Gwener, 28 Ebrill 2017, os gwelwch yn dda.

Geraint Tudur
Ysgrifennydd Cyffredinol

Coleg yr Annibynwyr Cymraeg

Cynhelir cyfarfod nesaf Tanysgrifwyr y Coleg ddydd Llun, 5 Rhagfyr, 2016 am 2p.m. yng Ngwesty Llety'r Parc, Aberystwyth.

Trefor Jones-Morris